# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED PENBRYN

# 2025/2026

# PENBRYN COMMUNITY COUNCIL

# ANNUAL REPORT

**Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned/Foreword From The Community Council Chair**

Annwyl Blwyfolion

Braint yn wir yw medru eich cyfarch ar ran y Cyngor Cymuned. Fel merch a anwyd ac a fagwyd yn y gymdogaeth hon, mae wedi bod yn anrhydedd fawr i wasanaethu'r gymuned hon a cheisio ein gorau glas i warchod gwasanaethau a buddiannau'r plwyfolion. Mewn cyfnod o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd ariannol, mae'n orchwyl heriol wrth sicrhau nad yw'r gymuned a'r plwyfolion ar eu colled.

Neges Dewi Sant oedd Gwnewch y Pethau Bychain, a dyna ble y medr Cynghorau Cymuned ragori ar gyrff eraill wrth weithredu yn nes at bobl ar lawr gwlad. Gallwn ofalu bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol yn cael eu gwarchod a'u hamddiffyn er budd plwyfolion ac ymwelwyr.

Diolch i chi oll am eich cefnogaeth

Cynghorydd Melva Phillips

Dear Parishioners

It is a great privilege to be able to greet you on behalf of the Community Council. Having been born and bred within this community, there is no greater honour than serving this community and attempting to maintain key services for the parish's benefit. During an uncertain financial period, there are challenging times ahead in maintaining services for the community's benefit.

Our Patron Saint, Saint David, once said that we ought to concentrate on the minor aspects of life. This is certainly where Community Councils may flourish as we are the main body who work nearest to communities at grassroot level. We can ensure that the services and local infrastructure are protected for the benefit of parishioners and visitors alike.

Thank you all for your support

Councillor Melva Phillips

**<u>Aelodaeth o'r Cyngor/Council Membership</u>**

| Aelod o'r Cyngor/Council Member | Cadeirydd/Chair – Is-Gadeirydd/Deputy Chair |
|---|---|
| Cynghorydd/Councillor Melva Phillips | Cadeirydd/Chair 2025/26 |
| Cynghorydd/Councillor Gareth Evans | Is-Gadeirydd/ Deputy Chair 2025/26 |
| Cynghorydd/Councillor Delfryn Owens | |
| Cynghorydd/Councillor Caerwyn Owen | |
| Cynghorydd/Councillor Gwyn James | |
| Cynghorydd/Councillor Jonathan Rees | |
| Cynghorydd/Councillor Teifi Davies | |
| Cynghorydd/Councillor Walwyn Jones | |
| Cynghorydd/Councillor William Anwyl | |
| Cynghorydd/Councillor Barri Davies | |
| Cynghorydd/Councillor Elen Mathias | |

**<u>Manylion Praesept y Cyngor Cymuned 2025/26/Details of Community Council Precept 2025/26</u>**

i) Beth oedd cyfanswn Praesept Cyngor Cymuned Penbryn yn 2025/26/At what level was Penbryn Community Council's Precept set in 2025/26?

Gosodwyd lefel y Praesept ar gyfer y flwyddyn hon ar gyfanswm o £15000 yn dilyn trafodaeth ddwys a helaeth ar anghenion y gymdogaeth o ran cynnal a gwarchod gwasanaethau. Dyma'r cyllid a wariwyd gan y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn hon er mwyn cynnal gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol er budd y gymuned.
The Precept for this financial year was set at £15000 following an extensive and intense discussion based upon the needs of the community as regards maintaining key services. This was the money spent by the Community Council during this year in order to maintain vital services essential for the community.

ii) Cyfraniadau Adran 137 gan y Cyngor/Section 137 Contributions by the Council

Dyma'r adran sydd yn caniatáu i Gynghorau gyfrannu'n ariannol tuag at elusennau ac achosion da o'u dewis yn flynyddol. Gyda dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â'r fro yn hwyrach eleni ,yr oedd hi'n anorfod bod cyfran helaeth o'n cyfraniad eleni yn mynd tuag at ei chefnogi'n ariannol. Gan barhau â'r un thema sefydliad arall a gefnogwyd yn ariannol eleni oedd Eisteddfod Gadeiriol leol Rhydlewis. Dyma restr gyflawn o'r cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las/National Eisteddfod 2026 | £1000.00 |
| Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis/Rhydlewis Eisteddfod | £  150.00 |

This is the section that allows Councils to make financial contributions to charities and good causes on an annual basis. With the National Eisteddfod visiting the area this year, it was inevitable that a substantial amount was designated to supporting the event to be held this August. Following a similar path, the Council also supported a local Eisteddfod to be held at Rhydlewis. You will find above a complete list of our contributions.

**Gwaith a Blaenoriaethau'r Cygnor yn 2025-26/Council's Duties and Priorities during 2025-26**

i) Ceisio sicrhau dyfodol tai bach cyhoeddus Tresaith/Ensuring future toilet provision at Tresaith
Gweithiodd y Cyngor Cymuned yn ddygn drwy gydol y flwyddyn, trwy gydweithio gyda Chyngor Ceredigion, er mwyn sicrhau dyfodol y ddarpariaeth uchod. Mae rhagor o waith i'w wneud eto ond byddwn yn parhau i flaenoriaethu hyn yn ein gweithgarwch.
*The Community Council worked diligently throughout the year, by co-operating with Ceredigion Council, in order to ensure a viable future for this vital provision. More work needs to be done again but it will remain a priority for us.*

ii) Llwybr yr arfordir yng nghymuned Penbryn/Coastal Path in Penbryn
Yr ydym yn ddolen gyswllt er mwyn hysbysu'r Cyngor Sir pan fydd pryderon gan blwyfolion ynghylch cyflwr y llwybr hwn. Tynnwyd sylw at gyflwr darn o'r llwybr ger pentref Tresaith yn ystod y flwyddyn. Trwy'r cydweithrediad hwn gellir hwyluso'r gwaith o gynnal y llwybr.
*Through our co-operation with the County Council we are in a position to inform them of any concerns parishioners may have regarding the coastal path's condition. We drew their attention this year to concerns about a section of the coastal path near Tresaith. This kind of co-operation facilitates maintenance work.*

iii) Rhwydwaith deffibrilwyr yn y gymdogaeth/Defibrillator network in the community
Un o flaenoriaethau pennaf y Cyngor hwn yw cynnal a chadw deffibrilwyr sy'n hwylus ac yn gyfleus i bawb. Mae gennym ddau ohonynt ein hunain ac yr ydym yn cefnogi rhai eraill yn y gymuned yn ariannol.

*One of this council's main priorities is the maintenance of defibrillators within the community. We have two of our own and we also assist others financially within the community.*

iv) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications
Rhan annatod o'n dyletswyddau misol yw pwyso a mesur ceisiadau cynllunio. Y mae budd a lles unigolion a'r gymuned gyfan yn elfen bwysig iawn yn y gwaith hwn.
*An essential part of our monthly obligations is the need to review planning applications. Weighing the benefits for individuals and the community as a whole is a key element of this work.*

**<u>Blaenoriaethau'r Cyngor yn y Dyfodol/The Council's Future Priorities</u>**

i) Cynnal Cyfleusterau Hanfodol/Maintaining Key Services
Byddwn yn parhau i frwydro o blaid cynnal cyfleusterau cwbl allweddol yn ein cymunedau. Nid yw dyfodol tai bach cyhoeddus Tresaith yn gwbl ddiogel eto, felly bydd gofyn i'r Cyngor barhau i bledio'r achos hwn yn angerddol.
*We shall continue to campaign in order to maintain key services provision within our community. The future provision of public toilets at Tresaith is yet to be resolved, and the Council will continue to support this cause with vigour.*

ii) Cynnal Gwasanaethau Cymunedol/Maintaining Community Resources
Mae ymdrechion cymunedol i gynnal adnoddau a gwasanaethau yn rhan holl bwysig o wead cefn gwlad. Oherwydd hyn, bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i gefnogi'r fath weithgarwch yn y dyfodol. Yr ydym yn benderfynol o barhau i gynnal y rhwydwaith eang o ddeffibrilwyr yn ein cymunedau.
*Community efforts to maintain resources and services are a vital part of rural life. Therefore, the Community Council will continue to support such activity in the future. We will continue to maintain our network of defibrillators within the community.*